OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1064 (Cy.113)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Diwygio) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Ebrill 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Ebrill 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Mai 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran y polisi amaethyddol cyffredin.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan bwerau a roddir gan yr adran honno.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Diwygio) (Cymru) 2008, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 2 Mai 2008.

**Diwygiadau**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Safonau Sootechegol 1992(**3**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 5, ychwaneger —

"**Collection, processing and storage of semen**

**6.**—(1) A recognised organisation shall ensure that semen referred to in Article 2 of the 1987 Directive which is intended for intra-Community trade —

(a) is collected and processed at an EC collection centre; and

(b) stored at an EC storage centre.

(2) A recognised organisation which fails to comply with paragraph (1) may have its recognition withdrawn by the Welsh Ministers by notice in writing at any time.

(3) In this regulation —

(**1**) S.I. 2005/2766. Mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 1992/2370.

"the 1987 Directive" means Council Directive 87/328/EEC(**4**) on the acceptance for breeding purposes of pure-bred breeding animals of the bovine species; and

"EC collection centre" and "EC storage centre" have the meanings given in the Bovine Semen (Wales) Regulations 2008 (**5**).".

(3) Yn lle Rhan V o Atodlen 3, rhodder—

# "PART V

## CRITERIA FOR ACCEPTANCE FOR BREEDING PURPOSES

Recognised organisations shall accept for breeding purposes bovines, and use ova and embryos, which satisfy the criteria specified in Council Directive 87/328/EEC on the acceptance for breeding purposes of pure bred breeding animals of the bovine species."

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

9 Ebrill 2008

(**4**) OJ Rhif L167, 26.6.87, t.54, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/24/EEC (OJ Rhif L 78, 24.3.2005, t. 43).
(**5**) O.S. 2008/1040 (W.110).

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Safonau Sootechnegol 1992, O.S. 1992/2370 (“Rheoliadau 1992”).

Mae'r diwygiadau'n rhoi effaith i'r diwygiadau i Gyfarwyddeb y Cyngor 87/328/EEC ar dderbyn, at ddibenion bridio, anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ 1 167, 26.6.1987, t. 54) a wnaed gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/24/EC o ran defnyddio ofa ac embryonau a chanolfannau storio ar gyfer semen o anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ L78, 24.3.2005, t.43).

Mae rheoliad newydd 6 o Reoliadau 1992, a ychwanegir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn, yn gosod rhwymedigaethau ar gyrff cydnabyddedig o ran casglu, prosesu a storio semen buchol. (Caiff y term “recognised organisation” ei ddiffinio yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 1992.)

Diwygir Rhan V o Atodlen 3 i Rheoliadau 1992 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cydnabyddedig dderbyn, at ddibenion bridio, ofa ac embryonau buchol.

Ni chafodd asesiad effaith rheoliadol ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn.